

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Hydref

O fis Chwefror i fis Ebrill

Rôl tiwtor modiwl

Byddwch yn arwain y myfyriwr yn y maes ymchwil o'i ddewis ac yn trafod elfennau amrywiol yr ymchwil a'r traethawd hir. Byddwch yn annog y myfyriwr i feddwl a rhesymu â'i hun a helpu gyda'r broses o ddatblygu sgiliau hanfodol sydd eu hangen ar y lefel hon. Byddwch yn darparu cymorth ac adborth amserol ac adeiladol yn ystod y gwaith o ddatblygu'r cynnig ymchwil, marcio a rhoi sylwadau ar y tri aseiniad a gyflwynir, darparu dysgu dros y ffôn/electronig i fyfyrwr unigol a marcio a graddio'r traethawd hir terfynol.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r modiwl yn defnyddio system e-bost a fforwm ar-lein y Brifysgol. Mae'r feddalwedd a'r cyfarwyddiadau ar gyfer eu defnyddio wedi'u cynnwys yn neunyddiau'r modiwl. Mae'r modiwl hwn yn defnyddio IBM neu gyfrifiaduron personol sy'n cydweddu ag IBM. Mae gan y rhaglen bolisi o ddiweddarar parhaus, ond mae'r fanyleb sylfaenol gyfredol fel a ganlyn:

- Prosesydd Pentium 166 MHz
- 16 MB RAM
- Disg galed 2 GB

Mae pob modiwl yn ei gwneud hi'n ofynnol bod gennych gyfrif ISP a mynediad at gyfrifiadur personol.

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r cwrs ymchwil hwn yn galluogi myfyrwr i gyflawni MSc drwy adeiladu ar y diploma ôl-raddedig sydd ganddynt eisoes. Mae myfyrwr yn dechrau drwy ddatblygu cynnig ymchwil manwl yn seiliedig ar faes pwnc sy'n briodol i'w hastudiaethau blaenorol a'r MSc y maent yn astudio ar eu cyfer. Ar ôl i'w cynnig cael ei gymeradwyo, maent yn parhau â'r ymchwil ei hun, ac yna'n ysgrifennu ac yn cyflwyno eu traethawd hir. Mae cymorth ar gael ar bob cam drwy fforymau ar-lein, drwy e-bost a dros y ffôn.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y cwrs hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- Gwybodaeth academiaidd ac arbrofol ar lefel ôl-raddedig mewn maes sy'n berthnasol i un neu fwy o raglenni cyfunol MSc T802: Systemau Meddwl Ymarferol, Rhwydweithio Uwch, Rheoli Technoleg, Rheoli'r Amgylchedd, Cyfrifiadura, Cyfrifiadura (Peirianeg Meddalwedd), Cyfrifiadura (Diogelwch Gwybodaeth a Fforensig) neu Beirianeg. Gallech fod wedi cael eich gwybodaeth a'ch profiad mewn sector diwydiannol, cyhoeddus neu wasanaeth preifat, NGO neu gyd-destun academiaidd ac mae angen i'r wybodaeth a'r profiad hwnnw gwmpasu'r wybodaeth berthnasol ar gyfer o leiaf un o'r modelau a gaiff eu dysgu mewn o leiaf un o'r diplomau ôl-raddedig.
- y gallu i gyfeirio a chefnogi gweithgarwch ymchwil ar sail un i un, goruchwyliwr-myfyriwr ar lefel MSc h.y. y gallu i arwain y myfyriwr yn y maes ymchwil o'i ddewis, trafod

- elfennau amrywiol y traethawd hir, annog y myfyriwr i feddwl a rhesymu drosto'i hun, a helpu gyda'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen ar y lefel hon
- y gallu i farcio a graddio'r traethawd hir terfynol (10,000 - 15,000 o eiriau) a gaiff ei gyflwyno'n electronig.

Byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- PhD, MSc neu MPhil neu gymhwyster ôl-raddedig perthnasol arall
- bod yn diwtor modiwl ar gyfer un o'r diplomau ôl-raddedig

Gwybodaeth ychwanegol

- Cewch eich gwahodd i fynychu sesiwn briffio sy'n seiliedig ar fodiwlau, y gellir ei gynnal yn electronig.
- Bydd cyfathrebu'n digwydd yn bennaf drwy ddefnyddio cyfryngau electronig, yn benodol e-bost a fforymau a dros y ffôn.
- Mae fforwm ar-lein ar gyfer myfyrwyr. Bydd y rhyngweithio rhwng Darlithwyr Cyswllt ac aelodau tîm y modiwl yn digwydd drwy fforymau ar-lein yn bennaf.
- Mae fforwm ar-lein ar gyfer myfyrwyr. Bydd y rhyngweithio rhwng Darlithwyr Cyswllt ac aelodau tîm y modiwl yn digwydd drwy fforymau ar-lein yn bennaf.
- Bydd deunyddiau addysgu a dysgu ar gael drwy wefan y modiwl.

Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl 60 cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:

Nifer yr aseiniadau a gyflwynwyd gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	1a
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	2
Band cyflog:	3
Oriau yr amcangyfrifir fesul wythnos addysgu:	2

Gall fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano a byddwn yn cysylltu â chi ar wahân amdano os yw'n berthnasol.